



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Achosion positif o covid-19 - ni ddylai disgyblion sydd â symptomau covid-19 fynychu'r ysgol. Mi fydd angen parhau i hunan ynysu am 5 diwrnod a chael 2 brawf LFD negyddol cyn dychwelyd.

Eisteddfod ysgol – ein bwriad yw cynnal yr Eisteddfod ysgol ar ddydd Iau, Mai'r 19eg a dydd Gwener Mai'r 20fed. Yn dilyn asesiad risg covid 19 rydym am osgoi cael holl blant yr ysgol a'r staff yn y neuadd am ddiwrnod cyfan. Mi fyddwn yn trefnu Eisteddfod i'r Meithrin a'r Derbyn ar fore dydd Iau, Bl 1 a 2 ar brynhawn dydd Iau, Bl 3 a 4 ar fore Gwener a Bl 5 a 6 ar brynhawn Gwener. Rydym hefyd yn bwriadu cael pawb at ei gilydd tu allan ar y cae am 2.30 ar y dydd Gwener ar gyfer cystadleuaeth y côr mawr a seremoni'r coroni a'r cadeirio – rhagor o fanylion i ddilyn.

Rhagbrofion yr Eisteddfod ysgol – fel arfer mae'r beirniad yn gwranddo ar bawb yn canu neu lefaru'n unigol yn ystod y rhagbrofion ac yn dewis un cynrychiolydd o bob tî i berfformio ar y llwyfan ar ddiwrnod yr Eisteddfod ysgol. Y tai / timau yw - Arthur (lliw glas), Caradog (lliw coch) a Dewi (lliw melyn). Cynhelir y rhagbrofion canu a llefaru unigol i bob plentyn sy'n dymuno cymryd rhan ar ddydd Llun, Mai'r 16eg gyda'r rhagbrofion offerynnol (Bl 4, 5 a 6 yn unig) ar ddydd Mawrth, Mai'r 17eg. Cofiwch ddod i'r ysgol ar y **dydd Iau a'r dydd Gwener** mewn gwisg sy'n cynrychioli eich tî neu wisg Gymreig.

Clwb yr Urdd yn parhau am bythefnos arall – nos Fercher, 3.30 – 4.30

Dydd Mercher, Mai 11eg – Bl 2, 5 a 6

Dydd Mercher, Mai 18fed – Bl 1, 3 a 4

Asesiadau personol cenedlaethol ar gyfer darllen a rhifedd – dros yr wythnosau nesaf mi fydd disgyblion Bl 2, 3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan mewn asesiadau personol ar lein mewn darllen a rhifedd. Mi fydd yr asesiadau yn cael eu gweithredu ar lefel unigol fel rhan o amserlen arferol y dosbarthiadau, felly ni fydd amserlen benodol fel oedd yn ystod y profion cenedlaethol rai blynyddoedd yn ôl. Mi fyddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau **lles y dysgwyr** - Ni ddylai'r asesiadau personol achosi gofid na phryder i ddysgwyr.

Gweler ychydig o fanylion gan Lywodraeth Cymru parthed yr asesiadau personol:

- Mae asesiadau ar-lein mewn darllen a rhifedd wedi cael eu cyflwyno fesul cam cyn cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Maent wedi'u cynllunio i gefnogi cynnydd dysgwyr unigol nawr a phan fydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ar waith. Mae'r asesiadau at ddefnydd ffurfiannol, er mwyn i athrawon ym mhob ysgol a gynhelir gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr, ynghyd â dealltwriaeth gyffredin o gryfderau a meysydd i'w gwella o ran y sgiliau hynny.
- Mae'r asesiadau yn canolbwyntio ar ddeall cynnydd dysgwyr, ac ni ddylid eu defnyddio at ddibenion perfformiad ysgol nac at ddibenion atebolrwydd.
- Drwy symud asesiadau darllen a rhifedd ar-lein, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig profiad asesu unigolledig sy'n addasu lefel yr her yn ddynamig ar gyfer pob dysgwr.
- Caiff yr asesiadau personol eu creu o gronfa fawr o gwestiynau (a thestunau ar gyfer yr asesiadau personol Darllen), sy'n seiliedig ar y sgiliau yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2 i 9.
- Mae'r asesiadau personol yn 'addasol' sy'n golygu y caiff cwestiynau eu dewis ar sail ymateb y dysgwr i'r cwestiwn neu'r cwestiynau blaenorol. Pan fydd dysgwyr yn ateb cwestiynau'n gywir byddant yn derbyn cwestiynau mwy heriol, a phan fydd dysgwyr yn ateb yn anghywir byddant yn derbyn cwestiynau haws. Mae'r dull hwn o bersonoli yn golygu y bydd pob dysgwr yn gweld cyfres wahanol o gwestiynau ac y bydd nifer y cwestiynau yn amrywio.

Gwyliau Hanner Tymor – mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30yp ar ddydd Gwener, Mai 27ain ac yn ail agor ar ddydd Llun, Mehefin 6ed.

Noddi rhaglen Gŵyl Haf yr ysgol - os oes gennych ddi-ddordeb mewn noddi'r rhaglen ar gyfer Gŵyl Haf yr ysgol eleni yna cysylltwch â mi cyn hanner tymor. Yn ystod y blynyddoedd a fu roedd cwmnïau neu fusnesau yn gosod

hysbyseb yn y rhaglen - hysbyseb fechan (maint cerdyn busnes tua 8.5cm x 5.5cm) - £50 neu hysbyseb fwy am £100. Er bod y digwyddiad ar gaeau'r ysgol mi fyddwn angen hurio llwyfan, system sain a gorchudd canopi mawr ar gyfer y digwyddiad. Cofiwch y dyddiadau - **dewis cyntaf - nos Fawrth, Mehefin 14eg am 6 o'r gloch**. Os fydd y tywydd yn anffafriol rydym wedi trefnu ail ddyddiad ar nos Fercher 15fed, a thrydydd dyddiad ar nos Iau, 16eg. Rhagor o fanylion i ddilyn.

NEWID DYDDIAD Mabolgampau ysgol - yn sgil gweithgareddau sydd bellach wedi eu trefnu gan sefydliadau tu allan i'r ysgol mi fydd angen i ni newid y dyddiadau ar gyfer y mabolgampau ysgol, **y dyddiadau newydd fydd - dewis 1 - dydd Mercher, Mehefin 29ain**, 2il ddewis - dydd Iau 30ain (mae mwy nag un dewis rhag ofn fydd y tywydd yn anffafriol)

Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd – mi fydd yr ysgol ar gau ar gyfer hyfforddiant i'r staff ar ddydd Gwener, Gorffennaf 1af.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth, 09/05/2022



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Positive cases of covid-19 - pupils with covid-19 symptoms should not attend school. Self-isolation for 5 days and 2 negative LFD tests will be required before returning.

School Eisteddfod - we plan to hold the school Eisteddfod on Thursday, May 19th and Friday May 20th. Following a covid 19 risk assessment we want to avoid having all the school children and staff in the hall for a whole day. We will be organizing an Eisteddfod for the Nursery and Reception on Thursday morning, Yr 1 and 2 on Thursday afternoon, Yr 3 and 4 on Friday morning and Yr 5 and 6 on Friday afternoon. We also plan to get everyone together on the field at 2.30pm on the Friday for the big choir competition and the crowning and charring ceremony - more details to follow.

School Eisteddfod Prelims - the adjudicator usually hears everyone sing or recite individually during the prelims and selects one representative from each house to perform on stage on the day of the school Eisteddfod. The houses / teams are - Arthur (blue colour), Caradog (red colour) and Dewi (yellow colour). The individual singing and recitation prelims will be held for all children who wish to take part on Monday, May 16th with the instrumental prelims (Years 4, 5 and 6 only) on Tuesday, May 17th. Please remember to come to school on Thursdays and Fridays in colours that represents your team / house or Welsh costume.

Urdd Club continues for another two weeks - Wednesday, 3.30 - 4.30

Wednesday, May 11th - Years 2, 5 and 6

Wednesday, May 18th - Years 1, 3 and 4

National personal assessments for reading and numeracy - over the coming weeks Yr 2, 3, 4, 5 and 6 will be taking part in online personal assessments in reading and numeracy. The assessments will be implemented at an individual level as part of the normal class timetable, so there will be no set timetable as during the national tests some years ago. We will make every effort to ensure **learners' wellbeing** - Personal assessments should not cause learners any worry or anxiety.

Please see some details from Welsh Government regarding the personal assessments:

- Online assessments in reading and numeracy have been phased in before the introduction of the new Curriculum for Wales. They are designed to support the progress of individual learners now and when the new curriculum and assessment arrangements are in place. The assessments are for formative use, so that teachers in all maintained schools have knowledge of their learners' reading and numeracy skills, as well as a common understanding of strengths and areas for improvement in those skills.
- The assessments focus on understanding learners' progress, and should not be used for school performance or accountability purposes.
- By moving reading and numeracy assessments online, the Welsh Government is offering an individualized assessment experience that dynamically adjusts the level of challenge for each learner.
- The personal assessments are created from a large pool of questions (and texts for the Reading personal assessments), which are based on the skills in the National Literacy and Numeracy Framework for Years 2 to 9.
- The personal assessments are 'adaptive' which means that questions are selected based on the learner's response to the previous question or questions. When learners answer questions correctly they will receive more challenging questions, and when learners answer incorrectly they will receive easier questions. This method of personalization means that each learner will see a different set of questions and the number of questions will vary.

Half Term Holidays - the school will close at 3.30pm on Friday, May 27th and re-open on Monday, June 6th.

Sponsoring the school's Summer Festival programme - if you are interested in sponsoring the programme for this year's Summer Festival, please contact me before half term. In previous years companies or businesses placed an

*advert in the program - a small ad (business card size about 8.5cm x 5.5cm) - £ 50 or a larger ad for £ 100. Although the event is on the school fields, we will need to hire a stage, sound system and large canopy cover for the event. Please remember the dates - first choice - on **Tuesday, June 14th at 6 o'clock**. If the weather is unfavourable we have arranged a second date on Wednesday 15th, and a third date on Thursday, 16th. More details to follow.*

CHANGE OF DATE for School sports - due to activities now organized by out of school organizations we will need to change the dates for school sports, **the new dates will be – first choice - Wednesday, June 29th**, 2nd choice - Thursday 30th (there is more than one choice in case of adverse weather conditions)

Inset Training Day - the school will be closed for staff training on Friday, July 1st.

If you have any worries regarding your child's wellbeing or education, then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher, 09/05/2022